# Tri Diben Asesu Cwricwlwm i Gymru

*GwE Hydref 2023*

# Asesu

Daw’r gair ‘asesu’ yn wreiddiol o’r Lladin **‘assidēre’,** sy’n golygu, yn llythrennol, ‘eistedd wrth ochr’ rhywun, er mwyn llunio barn am eu galluoedd.



# Cwestiwn – partner trafod

Wrth ystyried asesu….beth sydd ei angen ar y canlynol?

- Dysgwyr
- Ymarferwyr
- Arweinwyr a
- Rhieni / Gwarcheidwaid

## *Rhai negeseuon allweddol o ganllaw CiG*

Ysgolion/lleoliadau i bennu'r trefniadau asesu ar gyfer dysgwyr…… Gan y bydd ysgolion/lleoliadau yn datblygu eu cwricwlwm eu hunain a threfniadau asesu parhaus, byddant hefyd yn pennu'r trefniadau asesu 'ar fynediad' ar gyfer dysgwyr i ysgol neu leoliad.

*(Yr eithriadau i hyn yw'r dysgwyr hynny sy'n symud i'r flwyddyn derbyn o fewn darpariaeth feithrin bresennol ysgol a gynhelir neu'r dysgwyr hynny Blwyddyn 6 sy'n trosglwyddo i Flwyddyn 7.)*

***"I ddod i adnabod y plentyn"***

***"Helpu blaen gynllunio"***

***Hyfforddiant Ar Fynediad***

Rhaid i drefniadau asesu ar gyfer mynediad cynnar gynnwys ystyried:

**Sgiliau a galluoedd Rhifedd a Llythrennedd;**

**A galluoedd llesiant, i gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol.**

## *Rhai negeseuon allweddol o ganllaw CiG*

**3 diben asesu:**

- Cefnogi dysgwyr unigol yn **barhaus o ddydd i ddydd**
- **Adnabod, dal a myfyrio** ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- **Deall cynnydd grŵp** er mwyn myfyrio ar arfer

Mae'r wybodaeth a gesglir ar gynnydd dysgwyr yn **gymesur** a dim ond yn yr ysgol neu'r lleoliad y caiff ei defnyddio i gefnogi dilyniant dysgwyr yn uniongyrchol a llywio addysgu. **Ni ddylid ei ddefnyddio at ddibenion atebolrwydd allanol.**

Wrth asesu dilyniant dysgwyr, gan **ddefnyddio ystod o ddulliau asesu**, bydd ymarferwyr yn datblygu **darlun cyfannol** o'r dysgwr – eu cryfderau, eu meysydd i'w gwella a'r cymorth a'r her sydd eu hangen i ddatblygu eu dysgu.

**Ni ddylid ystyried** y disgrifiadau o ddysgu sy'n rhan o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru **fel y 'lefelau newydd'**. Ni ddylid eu defnyddio i ymgymryd â gweithgareddau asesu penodol ar bob cam cynnydd ac **ni ddylid eu rhannu i greu meini prawf asesu penodol na ffurfio 'rhestr ticio'** y byddai dysgwyr yn cael eu hasesu yn eu herbyn ar oedran neu bwynt penodol mewn pryd.

Dylid rhannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol yn dymhorol o leiaf ac **ni ddylid ei gynnwys mewn adroddiadau ysgrifenedig mawr** ond yn hytrach ei fwydo'n ôl mewn modd **hygyrch** sy'n cynyddu ymgysylltiad a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr.

Dylid darparu **crynodeb** o wybodaeth am ddysgwyr unigol **ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.**

- *y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud*
- *eu hanghenion dilyniant yn y dyfodol*
- *sut y gellir cefnogi anghenion dilyniant yn y dyfodol gartref*
- *eu lles cyffredinol yn yr ysgol*


Cyngor Gwynedd Council | Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council | Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council | Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council | Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council | wrexham wrecsam

***Deialog Proffesiynol***

Er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol roi trefniadau ar waith i alluogi pob ymarferydd sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol barhaus:


- yn eu hysgol; ac ar draws eu grŵp(au) clwstwr ysgolion.
- mewn ysgolion uwchradd, gydag ymarferwyr o leiaf un ysgol uwchradd arall i gefnogi cydweithio a chydlyniad ar draws camau olaf y continwwm 3 i 16
- mewn ysgolion arbennig, gydag ymarferwyr o ysgolion arbennig eraill.

Cyfleoedd rheolaidd ar gyfer **deialog broffesiynol** rhwng ymarferwyr **o fewn a rhwng ysgolion** i **adlewyrchu, rhannu a thrafod cynnydd dysgwyr** a **datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd** a sut mae cynnydd yn edrych trwy'r ysgol a'r clwstwr gan ddefnyddio enghreifftiau o gynllunio ac addysgu a dysgu


Diben asesu yw cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol mewn perthynas â'r continwwm 3 i 16.
Mae dysgwyr wrth galon asesu a dylid eu cefnogi i gymryd rhan weithredol yn y broses ddysgu.
Mae asesu yn broses barhaus sy'n rhan annatod o ddysgu ac addysgu.
Mae dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, a ddatblygir drwy ddeialog broffesiynol, yn hollbwysig wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwella dysgu ac addysgu.
Dylai dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan ddefnyddio ystod eang o ddulliau asesu, gan greu darlun cyflawn o ddatblygiad y dysgwr.
Mae ymgysylltu rhwng y dysgwr, ei rieni/gofalwyr a'r ymarferwyr yn hanfodol ar gyfer cynnydd a lles dysgwyr.
Dysgwr uchelgeisiol, galluog
Cyfranwr mentrus, creadigol
Dysgwr
Dinasydd egwyddorol, gwybodus
Unigolyn iach, hyderus

# Canllaw Estyn (Medi 2021)

**Maes Arolygu 1: Safonau a chynnydd mewn dysgu a sgiliau**
Ym mhob ysgol a PRU, wrth werthuso datblygiad gwybodaeth, sgiliau a chyflawniad disgyblion, dylai arolygwyr seilio eu gwerthusiadau ar dystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o:arsylwadau disgyblion mewn gwersi, teithiau dysgu ,craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau gyda disgyblion.




**Maes Arolygu 2.2: Agweddau at ddysgu**
Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae disgyblion yn datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau allweddol a fydd yn eu helpu i ddysgu trwy gydol eu bywydau. Dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb i adborth gan oedolion a'u cyfoedion
- pa mor effeithiol y mae disgyblion yn defnyddio adborth i symud eu dysgu ymlaen

Adobe Acrobat Document

**Maes Arolygu 3.2: Addysgu ac Asesu**
Wrth werthuso addysgu ac asesu, dylai arolygwyr nodi nad oes unrhyw fethodoleg ddewisol y dylai athrawon ei dilyn, ac y gall athrawon ddefnyddio ystod o wahanol ddulliau dros amser. Yr ystyriaeth allweddol yw a yw arfer ystafell ddosbarth yn llwyddo i ymgysylltu â'r holl ddisgyblion a datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i lefel briodol o uchel wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

## ADBORTH

Wrth werthuso ansawdd yr adborth gan athrawon ac ymarferwyr eraill, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae **adborth llafar ac ysgrifenedig** yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Dylent werthuso effeithiolrwydd yr adborth y mae disgyblion yn ei gael am waith y maent wedi'i gwblhau ar-lein neu'n ddigidol. Dylai arolygwyr ystyried:

- i ba raddau y mae athrawon yn datblygu meddwl a dealltwriaeth disgyblion trwy gwestiynu medrus a monitro dysgu disgyblion

- pa mor effeithiol y mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn ymateb i ddysgu disgyblion yn ystod gwersi a gweithgareddau ac yn addasu eu dull yn unol â hynny

- pa mor llwyddiannus y mae athrawon yn darparu cyfleoedd perthnasol, pwrpasol i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion lle bo hynny'n briodol

**DYSGU**

- pa mor dda y mae addysgu ac asesu yn cefnogi cyflwyno cwricwlwm yr ysgol
- i ba raddau y mae gan athrawon ac ymarferwyr eraill ddisgwyliadau uchel o bob disgybl
- a yw gwybodaeth bwnc athrawon yn ddigon arbenigol o fewn y meysydd o'r cwricwlwm y maent yn eu haddysgu
- i ba raddau y mae gan athrawon ac ymarferwyr eraill amcanion clir ar gyfer dysgu disgyblion ac yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau i ymgysylltu a chefnogi pob disgybl i gyflawni cystal ag y gallant
- pa mor effeithiol y mae athrawon yn gwneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol ac atyniadol lle gall pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf a lleiaf galluog, ddysgu'n gynhyrchiol
- eglurder esboniadau athrawon ac ymarferwyr a pha mor dda y maent yn cefnogi datblygiad sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion
- pa mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn rheoli ymddygiad disgyblion ac a ydynt yn trin pob disgybl yn gyfartal a chyda pharch priodol
- pa mor llwyddiannus y mae athrawon yn defnyddio staff eraill i gefnogi dysgu disgyblion

## DATBLYGU CYD-DDEALLTWRIAETH O GYNNYDD

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae athrawon yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd i sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Wrth werthuso defnydd athrawon o ganlyniadau eu hasesiadau eu hunain ac allanol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i:

- gynllunio gwersi a'r camau nesaf yn nysgu disgyblion
- llywio addysgu a dysgu, ac i helpu disgyblion i ddeall eu rhai eu hunain
- cryfderau a meysydd i'w gwella
- asesu cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol, er enghraifft y disgyblion hynny sydd mewn perygl o dangyflawni neu'r rhai sy'n fwy abl

## TYSTIOLAETH

Wrth werthuso addysgu ac asesu, dylai arolygwyr ddefnyddio'r ystod lawn o dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- tystiolaeth o waith disgyblion (gan gynnwys yr hyn a gwblhawyd ar-lein),
- cynllunio athrawon,
- cofnodion asesu,
- gwybodaeth am gynnydd disgyblion a thrafodaethau gyda disgyblion a staff,
- yn ogystal ag arsylwadau gwersi a theithiau cerdded dysgu a gynhaliwyd gan aelodau o'r tîm arolygu.




[Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu | Estyn (llyw.cymru)]

- Blaenoriaethu ymagweddau at asesu sy’n dyfnhau dealltwriaeth athrawon o ddysgu disgyblion a’u cynnydd
- Datblygu dealltwriaeth athrawon ac arweinwyr o arferion asesu ffurfiannol effeithiol yn yr ystafell ddosbarth
- Sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth am asesu i addasu eu haddysgu i gefnogi a herio’r holl ddisgyblion yn briodol
- Ymgorffori cyfleoedd systematig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gwerthuso a gwella eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion

## **Fframwaith Gwella Ysgolion:** [Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd - Hwb (gov.wales)]

Mae cynnydd dysgwyr yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru, felly mae angen rhoi'r un pwysigrwydd i gynnydd mewn gweithgareddau gwerthuso a gwella, a phrosesau atebolrwydd. Mae'r canllawiau hyn yn awgrymu bod ysgolion yn defnyddio'r 2 gwestiwn canlynol fel man cychwyn ar gyfer eu gweithgareddau gwella:

- ***Pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd yn yr egwyddorion cynnydd, gan eu cefnogi i ddatblygu tuag at y pedwar diben?***

➢ *cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth;*

➢ *dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau mewn meysydd;*

➢ *mireinio a soffistigedigrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau;*

➢ *gwneud cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd*

➢ *a chynyddu effeithiolrwydd y dysgwr*

- **A yw cyflymder cynnydd dysgwyr yn unol â disgwyliadau athrawon a'r cwricwlwm?**